

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 20^{fed} GORFFENNAF 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Wil Guest Roberts

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Annwen Daniels
Bedwyr Gwilym
Rory Francis
Ronwen D Roberts

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Adroddiad Caeau Chwarae**
Bu i'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion holi pam nad oes arwydd Dim Cŵn ar gae Bryn Coed.
Argymhell: I dderbyn yr adroddiadau ac i drafod prynu arwyddion Dim Cŵn gyda logo'r Cyngor Tref arnynt ym mis Medi.
2. **Y Parc**
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r diffyg refeniw sydd wedi ei dderbyn er i'r cwrs golff gwirion gael ei osod.
Argymhell: I'w drafod ym mis Medi wedi i gynghorwyr edrych eto ar ei leoliad a beth all i'w wneud i wella'r defnydd o'r cwrs.
3. **Caffi'r Parc**
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â phroblemau gyda'r caffi ddim ar agor yn rheolaidd e.e. dim toiledau ar gael, dim tocynnau cwrs golff gwirion yn cael eu gwerthu a dim codi sbwriel rheolaidd.
Argymhell: I geisio cael cyfarfod gyda Carys Jones nos Fawrth 25^{ain} o Orffennaf am 7.00 yn y Siambr i geisio datrys rhai o'r problemau.
4. **Cae Baltic**
Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r pris o £6308.00 am ffens newydd i'r cae chwarae a £10,384.00 am ffens i weddill y cae gan North Wales Fencing.
Argymhell: Y Cynghorydd Will G Roberts i holi os bydd gosod rheilen ar ben y ffens yn ei wneud yn fwy diogel gan nad oes unrhyw nam ar y ffens ond nid yw o fewn gofynion ROSPA erbyn hyn.
5. **Tir ger Cae Baltic**
Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig i'r Cyngor Tref brynu llecyn o dir ger y cae chwarae. Mae'r Cyngor wedi dangos diddordeb yn y tir yma yn y gorffennol.
Argymhell: Mae'r tir yma wedi ei warchod ar gyfer hamdden ac mae plant lleol yn chwarae arno yn rheolaidd. I gadarnhau i Gyngor Gwynedd bod y Cyngor Tref yn barod i'w brynu er mwyn ei warchod fell le chwarae i blant lleol.
6. **Talu biliau**
Caniatâd i dalu biliau Eifion Stores, Broxap, Zurich a Catrin Williams
Argymhell: Rhoddwyd caniatâd i dalu'r biliau

7. **Ceisiadau Cynllunio**

Trafod ceisiadau cynllunio sydd i law

a) Cais Cynllunio Rhif C17/0615/03/LL

Ymgeisydd Mr & Mrs J T Jones

Cyn HSBC

Heol yr Eglwys

Blaenau Ffestiniog

Cais ar gyfer newid defnydd Banc a swyddfeydd i dy bwyta a thy preswyl 7 ystafell wely ynghyd a darparu ffenestri dormer yn y to a newidiadau allanol i'r agoriadau

Dim Gwrthwynebiad ond cynigir sylwadau bod gwall ar bwynt 15 gan fydd gwastraff masnachol yno oherwydd iddo gael ei ddefnyddio fel tŷ bwyty.

b) Cais Cynllunio Rhif C17/0667/03/LL

Ymgeisydd Mr & Mrs Beards

Bryn Tirion

91 Ffordd Manod

Blaenau Ffestiniog

Estyniad llawr cyntaf

Dim Gwrthwynebiad

8. **Toiledau cyhoeddus Diffwys**

Bu i'r Cyngor derbyn llythyr gan Gyngor Gwynedd yn cadarnhau bod y trefniadau ar gyfer cyfrannu tuag at gostau rhedeg y toiledau yn aros yr un fath ar gyfer 2018/2019. Gofynnir hefyd i'r Cyngor gadarnhau ei fwriad o redeg y toiledau cyhoeddus os bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu eu cau.

Argymhell: I dderbyn y wybodaeth parthed costau i'r flwyddyn 2017/2018 ac i gadarnhau bydd y Cyngor Tref yn fodlon cymryd y toiledau cyhoeddus drosodd os bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu eu cau.